

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth, 25 Chwefror 2020 yn Neuadd Pentref Carmel**

**Minutes of the Cemeteries & Assets Committee held Tuesday, 25 February 2020 at Carmel Village Hall**

## **Yn bresennol - Present**

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Clive Bayley; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones; Marnel Pritchard; Rhys Vaughan Thomas; Dyfed Williams a David Roberts Rheolwr y Cyngor / Council Manager.

## **1 Croeso'r Cadeirydd – Chairman's Welcome**

Yn absenoldeb Cyng. Robert Jones, Cadeirydd y Pwyllgor penderfynwyd ethol Cyng. Dyfed Williams i'r gadair am y noson. Croesawyd pawb i'r cyfarfod ganddo ac aeth yn syth at y rhaglen.

*In the absence of Cllr. Robert Jones, Chairman of the Committee it was resolved to elect Cllr. Dyfed Williams as chairman for the evening. All was welcomed and he proceeded immediately to the evenings business*

## **2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences**

Cyng. Helen Hughes; Cyng. Alan Patterson;

## **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol. *No declaration of personal or prejudicial interest was made by those present*


## **4 Safleoedd Claddu Bryn'rodyn ac agor y Fynwent Newydd – Burial Places at Bryn'rodyn and Opening of the New Cemetery**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod yna oddeutu 7 safle claddu yn yr hen fynwent ger yr hen gwt.

Bu i Roberts ac Owen rodio'r safle nol ym mis Mai 2019 ac nid oes sicrwydd fod yn bosib agor beddi i ddyfnder o 8 troedfedd ar gyfer tri claddedigaeth.

Barn yr aelodau yw fod angen llenwi y beddau yma yn gyntaf cyn cychwyn agor y fynwent newydd. Oherwydd y nifer fechan o safleoedd yn yr hen fynwent rhaid bod yn barod i gychwyn claddu yn y fynwent newydd.

Dosbarthwyd gynllun o'r fynwent newydd i'r aelodau fel a gynlluniwyd gan Wakemans wth ddylunio y fynwent newydd. 'Roedd y Rheolwr wedi dynodi rhif a llythyren ar pob safle ar y cynllun.. 'Roedd yr aelodau yn cytuno gyda awgrym y Rheolwr 'r gladdedigaeth gyntaf fod ar safle A1. Ar ail A" ac yn y blaen fel anodwyd ar y cynllun.



**Argymhelliad i'r Cyngor –**

- i) *Fod y Cyngor yn derbyn fod angen i'r fynwent newydd fod yn barod i gychwyn claddu gan mai ond saith safle claddu sydd yn yr hen fynwent***
- ii) *Fod y Cyngor yn derbyn trefn claddu yn y fynwent newydd fel a nodwyd***

**Recommendation to the Council –**

- i) *For the Council to accept that the new cemetery has to be ready and prepared for burials as the old cemetery has only seven burial sites***
- ii) *That the Council accepts the order of burials at the new cemetery as set out***

Rhodddwyd ystyriaeth i newid rheolau mynwentydd a chaniatáu ond cerrig beddi lled-draws yn unig yn y fynwent newydd. Nodwyd y byddai hynny yn dod dros y broblem o cerrig beddi yn dod yn rhydd/perylus dros amser ond roedd yr aelodau o'r farn mai mater i deuluoedd yw dewis y carreg fedd. Nid oedd gan yr aelodau y dymuniad i wthio un math o garreg yn unig.

Roedd pawb o'r farn na ddylid caniatáu cofeb feini gyda cerbiau

***Argymhelliad i'r Cyngor - Fod y Cyngor yn caniatáu cofebau plât , plinth a carreg gydag ysgrif a gwrthod cofebau gyda cerbiau, ond ddim yn gwrthod cofebau lled-draws yn y fynwent newydd os mai dyma yw dymuniad deilydd yr hawl claddu.***

***Recommendation to Council - that the Council allows memorials standing on a plate , plinth and stone with a script and rejects memorials with kerbs, but does not reject flat headstones in the new cemetery if that is the wish of the grave owner.***

## **5 Lloches Bws Y Fron Bus Shelter**

Mater a godwyd gan Cyng. Eddie Willcox yn cyfarfod o'r Cyngor llawn 17 Chwefror 2019.

Atgoffwyd yr aelodau fod EW wedi creu cynllun i symud y lloches i gydymffurfio gyda rheolau mynediad i'r anabl. 'Roedd disgwyl y byddai grant gan Grŵp Chwarel Alexandra yn ariannu y gwaith

ond mae problemau wedi codi gyda'r Grŵp yn ddiweddar a cwestiwn wedi codi os oes grantiau ar gael o'r ffynhonnell hwn bellach. Roedd EW yn fodlon gwarantu y gwariant o boced ei hun os oes rhaid. Bwriad EW yw i gysylltu gyda tri contractwr gan ofyn am bris. Y Cyngor Cymuned fydd yn archebu y gwaith ac felly yn ad-enill y TAW.

Sylwadau Aelodau –

Ddim ar rhestr blaenoriaeth gwario y Cyngor

Dim arian wedi dynodi ar gyfer y gwaith

Angen pecyn ariannol cadarn cyn ystyried cyflawni'r gwaith

Pawb yn anghyfforddus gyda'r awgrym i EW ariannu y gost.

**Argymhelliad i'r Cyngor –**

- i) Fod y Cyngor yn cysylltu gyda Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ddarganfod union anghenion sydd ei angen i gydymffurfio a deddf anabledd***
- ii) Fod y Cyngor yn asesu y sefyllfa ymhellach cyn ychwanegu'r gwaith i'r rhestr Blaenoriaeth Gwariant***

***Recommendation to the Council –***

- i) That the Council liaises with Gwynedd Council's highways department to establish the exact requirements for compliance with disability access.***
- ii) That the Council assesses the situation further before including the work to the Priority Expenditure list***

## **6 Tandro Cynnal Tiroedd Mynwentydd, Caeau Pel-droed, Gwagio Biniau a Cynnal Llwybrau Cyhoeddus – Cemeteries & Football Fields , Cemeteries Refuse Collection & Maintenance of Public Footpaths Tenders**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod y cytundebau presennol yn dod i ben 31 Mawrth 2021.

Atgoffwyd yr Aelodau mai Partneriaeth Bro Lleu, sef partneriaeth rhwng Cyngor Llanllyfni a Cyngor Llandwrog wnaeth osod y tender bresennol nol yn Tachwedd 2017 gyda'r bwriad y byddai gosod tender ar y cyd yn sicirhau gwell pris. Llwyddwyd i gael discwont o 6%.

Sylwadau Aelodau –

AWJ – ddim yn ymwybodol o unrhyw gwynion gyda'r contractwr presennol

DW – yn awgrymu i'r aelodau ystyried ymestyn y gytundeb presennol am flwyddyn ychwanegol at 31 Mawrth 2022 ond bod angen cysylltu yn gyntaf gyda Cyngor Llanllyfni gan ofyn a oes bwriad parhau gyda'r Partneriaeth Bro Lleu.

Adroddwyd gan y Rheolwr ei fod wedi cychwyn arolwg o holl lwybrau cyhoeddus yn y gymuned ac yn mapio'r union leoliadau sydd angen gwaith cynnal. Ofnir fod yna rhai llwybrau ddim yn cael sylw ac sydd angen i'w cynnwys ar restr o'r llwybrau sydd angen eu cynnal.

**Argymhelliad i'r Cyngor –**

- i) Fod y Cyngor yn ystyried ymestyn y gytundeb presennol am flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022 yn amodol ar ymateb Cyngor Llanllyfni ynglyn a cyd-weithio.***
- ii) Fod Cadeirydd y Cyngor yn cysylltu gyda O P Huws o Gyngor Cymuned Llanllyfni***
- iii) Fod y Cyngor yn nodi fod y Rheolwr wedi cychwyn y gwaith o arolygu holl lwybrau cyhoeddus y gymuned ac felly yn aros am argymhelliad y Pwyllgor hwn os oes angen addasu y rhestr o'r llwybrau sydd yn cael gwaith cynnal blynyddol***

***Recommendation to Council -***

- i) For the Council to considers extending the current contract for one year to 31 March 2022 subject to Llanllyfni Council's response regarding co-operation.***
- ii) That the Chairman of the Council contacts O P Huws of Llanllyfni Community Council.***

- iii) *That the Council notes that the Manager has begun the work of surveying all the public footpaths in the community and therefore awaits the recommendation of this Committee if the list of footpaths that is maintained annually needs to be amended*

## **7 Polisi Defnydd Caeau Pel-droed a Ffurflen Gais – Policy for the use of Football Fields & Application Form**

Adroddwyd gan y Rheolwr mai mater a godwyd gan Cyng. Eddie Willcox oedd hwn nol yn Hydref 2019 yn dilyn defnydd o'r cae gan Canolfan Y Fron.

Dosbarthwyd polisi a ffurflen gais draft gan y Rheolwr i pob aelod

Aethpwyd ati bori dros y polisi ac awgrymwyd man addasiadau.

***Argymhelliad i'r Cyngor – Fod y Cyngor yn mabwysiadu y polisi a'r ffurflen gais gyda'r addasiadau a gynigwyd.***

***Recommendation to the Council – That the Council adopts the policy and application form with the amendments proposed.***

## **8 Meysydd Chwarae Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Playgrounds**

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Rheolwr fod y Cyngor wedi derbyn llythyr gan Cyngor Gwynedd dyddiedig 1 Tachwedd 2019 yn gofyn oedd gan y Cyngor hwn ddiddordeb, neu yn fodlon ystyried, cymeryd cyfrifoldeb mewn egwyddor am y meysydd chwarae yn ein cymuned.

'Roedd y llythyr hwnnw yn nodi fod yna bump maes chwarae yn ein cymuned sef – Y Fron, Carmel, Groeslon, Llandwrog a Dinas Dinlle.

Penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod 18 Tachwedd 2019 oedd – ***Penderfynwyd - ymateb y llythyr trwy ddatgan fod y Cyngor hwn yn fodlon cynnal trafodaeth ar y mater ymhellach gyda Cyngor Gwynedd ond tydi'r Cyngor ddim mewn sefyllfa i wneud ymrwymiad hyn o bryd hyd yn oed mewn egwyddor***

Derbyniwyd lythyr pellach gan Cyngor Gwynedd dyddiedig **10 Chwefror 2020** yn cadarnhau and yw meysydd chwarae ysgolion o dan ystyrieth bellach ac mai ond tri maes sydd bellach dan sylw sef – **Y Fron, Carmel a Dinas Dinlle.**

**Dywed y llythyr and oes bwriad gan Cyngor Gwynedd i gau unrhyw faes chwarae.**

Rhoddir gwahoddiad i'r Cyngor Cymuned ystyried cymeryd cyfrifoldeb llawn am y meysydd, penderfynu gweithio mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Cymuned gan gymeryd yr asedau ymalen gyda'r Cyngor Sir yn parhau i'w archwilio.

Cafwyd costau blynyddol rhedeg y meysydd fel a ganlyn-

**Y Fron £490**

**Carmel £5,059 cynnwys £4,635 gwariant un tro**

**Dinas Dinlle £ 634**

Sylwadau Aelodau –

AWJ – yn amheus nad yw y ffigyrau yn dangos y gwir gostau. Ddim yn cynnwys costau swyddfa gefn. Byddai cymeryd drosodd yr asedau yn golygu fwy o waith gweinyddiaeth i'r Cyngor.

RVT – yn awgrynu fod yna gostau sylweddol i gynnal ac adnewyddu offer chwarae os y byddai'r Cyngor Cymuned yn cymeryd yr asedau drosodd

**Argymhellion i'r Cyngor – Fod y Cyngor yn gwrthod y gwahoddiad i gymeryd unrhyw gyfrifoldeb am y meysydd chwarae am y tro.**

**Recommendations to the Council - That the Council rejects the invitation to take any responsibility for the playing fields at this time.**

<b>Daeth y cyfarfod i ben am 8:35 yr hwyr / Meeting closed at 8.35 pm</b>
---

<b>Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -</b>	
<b>Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor</b>	
<b>Dyddiad -</b>	